# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12:30 ar 24 TACHWEDD 2025, yn y Ganolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Paul Bevan; Yr Athro Sarah Davies; Kate Eden; Kylie Evans; Millie Hackett, Llywydd Undeb Aberystwyth; Dr Aloysius Igboekwu; Nanw Maelor, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA; Dan Richards; Arwel Thomas; Mark Tweed; Jane Usherwood; a Claire Vaughan |
| Yn gweinyddu: | Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol; Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol; Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu (Dros Dro) (cofnodion) |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, a Yusuf Ibrahim.

## 15. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

## 16. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Nododd Jane Usherwood mai hi yw enwebai'r Cyngor ar fwrdd ymddiriedolwyr CPAPA, Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth.

Nododd Kylie Evans ei bod yn aelod o'r CPAPA.

Yng nghyswllt yr eitem ar CELF, nododd Dan Richards bod yna wrthdaro buddiannau yn ei achos ef, ac na fyddai'n cyfrannu at y drafodaeth.

## 17. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Hydref 2025 (COU2526-015).

Nododd yr aelodau y dylid diwygio eitem 7.7 i adlewyrchu'r ffaith bod yr Undebau Llafur yn pleidleisio dros weithredu diwydiannol yn genedlaethol, ac nad yw hyn yn fater lleol nac yn adlewyrchu'r sefyllfa yn Aberystwyth.

Nododd yr aelodau eu bod yn gwerthfawrogi manylder y cofnodion.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 25/03/2026

**18. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2526-016).

NODWYD

Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn rhannu diweddariadau llafar a dderbyniwyd ers ei gylchredeg.

**19. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-018)

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle y cafodd materion eu cymeradwyo gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor, sef Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau.

**20. GOHEBIAETH**

1. <u>Adolygiad Risg Sefydliadol (IRR)</u>

DERBYNIWYD

Llythyr gan James Owen, Prif Weithredwr Medr (COU2526-019), yn cydnabod perfformiad da parhaus y Brifysgol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) ac yn gofyn am gynllun gweithredu mewn ymateb i'r un canlyniad sy'n amlwg yn is na'r meincnod.

NODWYD

Nododd yr aelodau yr ohebiaeth a holi ynghylch y dyddiad cau ar gyfer ymateb i Medr. Cadarnhaodd y swyddogion fod estyniad wedi'i roi tan 22 Hydref, ac y byddai'r ymateb ar y cyd oddi wrth Undeb Aber a'r Brifysgol yn cael ei rannu gyda'r Cyngor.

Cadarnhaodd yr Is-Ganghellor bod yr ymateb hwn ar y ffordd. FOIA s43(2) [redacted] maent yn hapus â chyfeiriad cyffredinol y Brifysgol. Nid oes gofyn i'r Brifysgol ddarparu ymateb.

Nododd yr aelodau y bwriad yn y llythyr i gyhoeddi canlyniadau dienw.

**21. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2526-020), sy'n cynnwys tair adran allweddol: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; adroddiad cynllunio, gan gynnwys denu myfyrwyr; ac adroddiad cyfathrebu.

NODWYD

1. Mae'r ffigurau denu myfyrwyr 1.3% yn uwch na'r ffigurau targed a ddefnyddiwyd i lunio'r gyllideb, gyda'r rhan fwyaf o garfannau yn dod yn agos iawn at y targed. Roedd nifer y myfyrwyr sy'n dychwelyd yn uwch na'r disgwyl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod pa fyfyrwyr ydyn nhw ac a yw hyn o ganlyniad i ymyriad penodol gan y Brifysgol.

2. Yr amrywiad cadarnhaol mwyaf i'r targed oedd carfan y myfyrwyr ôl-radd rhyngwladol a ddysgir trwy gwrs a nifer y myfyrwyr israddedig sy'n dychwelyd ac sy'n gymwys i dalu ffioedd cartref. Yr amrywiad negyddol mwyaf i'r targed oedd carfan y myfyrwyr ôl-radd cartref a ddysgir trwy gwrs. Byddwn yn parhau i ddadansoddi'r data hwn i lywio ein camau gweithredu wrth fynd ymlaen i gylch denu myfyrwyr 2025/26, a thu hwnt.

3. Mae'r adroddiad ar ddenu myfyrwyr yn cynnwys crynodeb fesul Cyfadran ac Adran o dair blynedd o ddata denu myfyrwyr ar gyfer ein prif ffynhonnell incwm, sef israddedigion Cartref, FOIA s43(2) [redacted]. Fel rhan o'r gweithgarwch i wella'r sefyllfa hon, rydym wedi nodi pynciau ffocws, sef y rhai lle rydyn ni'n meddwl y gallwn wneud y mwyaf o waith yn yr amser byrraf.

4. Mae'r rhain yn cael eu gyrru gan ddata, trosiadau, swm y ceisiadau, cyfran o'r farchnad, a'u cyfeiriad cyffredinol. Y bwriad yw dechrau ym mis Ionawr gyda'r chwe phwnc a nodwyd, yna asesu'r broses gyfan. Gofynnodd yr aelodau beth fyddai angen ei wneud i hyrwyddo pynciau ffocws. Mae'r Prif Swyddog Marchnata yn arwain ar hyn, ar y cyd â Dirprwy Is-Gangellorion Cynorthwyol y Cyfadrannau, ac mae'r gweithgareddau'n cynnwys creu deunyddiau marchnata ar y cyd, gan arwain at weithgarwch wedi'i anelu at gynulleidfaoedd allanol. Nodwyd bod yr amser yn gyfyngedig i newid y sefyllfa ar gyfer mynediad 2026.

5. Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad ymchwil cadarnhaol a'r holl waith ymgynghorol, dwy elfen sy'n cyd-fynd yn dda â'r nod strategol o atgyfnerthu Cymru.

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn dilyn esiampl llywodraeth y DU ac yn codi'r cap ar ffioedd ar gyfer mynediad 2026/27. Bydd y Brifysgol yn gwneud argymhelliad cryf ein bod ni'n gwneud, er y nodwyd mai canlyniad hynny fyddai economi gymysg o ran sefydliadau yn gwneud newidiadau. FOIA s43(2) [redacted]

7. Nododd y Cadeirydd y gallai cwestiynau godi pan gyhoeddir yr adroddiad blynyddol, gan y gallai pobl synnu bod y gyllideb darged wedi'i chyflawni. Gofynnodd yr aelodau ai rhanddeiliaid mewnol ynteu rhanddeiliaid allanol sy'n debygol o gael eu synnu. Cadarnhaodd swyddogion fod y cyfathrebu wedi'i reoli'n dda yn fewnol ac felly ei bod yn fwy tebygol mai'r rhanddeiliaid allanol fyddai'n cael eu synnu.

PENDERFYNWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

8. Cytunodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol cynnal sesiwn friffio yn y dyfodol ar y Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd, ac Ardal Twf AI De Cymru. **[GWEITHREDU: Llywodraethu]**

9. Nodwyd adroddiad yr Is-Ganghellor.

## 22. ADRODDIAD GAN UNDEB ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Millie Hackett, Llywydd Undeb Aberystwyth a Nanw Maelor, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA (COU2526-021)

NODWYD

1. Mae 159 o fyfyrwyr-wirfoddolwyr wedi rhoi 3611 awr o'u hamser ac wedi cofnodi eu bod wedi datblygu 341 o sgiliau, gan gynnwys gwaith tîm, cyfathrebu, datrys problemau, trefnu, mentora a hyfforddi. Mae cofnodi yn bwysig yng nghyswllt cyflogadwyedd gan ei fod yn helpu myfyrwyr i adnabod y sgiliau maent yn eu datblygu yn eu bywydau bob dydd fel myfyrwyr.

2. Cynhaliodd Aberystwyth Ddawns Ryng-Golegol lwyddiannus iawn ym mis Tachwedd, gyda dros 500 o fyfyrwyr yn mynychu dros y penwythnos, o Gymru ond hefyd o gymdeithasau Cymreig o brifysgolion ledled Lloegr.

3. Mae'r gwaith i sefydlu cyfansoddiad UMCA yn mynd rhagddo, dan arweiniad is-bwyllgor cyfansoddiadol newydd. Mae UMCA a'r Undeb wedi bod yn cydweithio'n agos i ddatblygu'r berthynas rhwng y ddau Undeb, sydd wedi bod yn broses hynod gadarnhaol hyd yma.

4. Yn gynnar ym mis Tachwedd, mynychodd Llywyddion UMCA a'r Undeb gynhadledd UCM yng Ngholeg Cambria yn Wrecsam, lle cafwyd trafodaethau ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16. Gofynnodd yr aelodau am ragor o fanylion ynglŷn â'r trafodaethau hyn, a beth yw'r heriau. Mae llai o fyfyrwyr yn astudio Safon Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, er nad yw hyn yn wir am fyfyrwyr o'r Gorllewin. Mae'r capasiti dysgu mewn prifysgolion yn broblem. Nododd Llywydd UMCA fod ganddynt berthynas dda â'r Dirprwy Is-Gangellorion Cynorthwyol Cyfadrannol gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg, a'u bod yn cydweithio i ddeall yr heriau gwahanol ym mhob Cyfadran sy'n effeithio ar allu myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Mae UMCA yn edrych ymlaen at gynnal digwyddiad ym mis Rhagfyr ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, sy'n nodi 10 mlynedd ers cau Neuadd Pantycelyn yn 2015. Bydd y digwyddiad yn achlysur dadorchuddio barddoniaeth newydd gan Mererid Hopwood, Eurig Salisbury a Hywel Griffiths, a fydd yn cael ei arddangos ar y waliau.

6. Gofynnodd yr aelodau a yw'r Cyngor yn gweld cyfrifon archwiliedig yr Undeb. Cadarnhaodd swyddogion y byddant yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

## 23. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (COU2526-035) yn nodi effeithiau ariannol y model ariannol y cytunwyd arno ar gyfer cam cyntaf y gweithrediadau gwesty a hamdden ac agweddau allweddol ar reoli'r berthynas â'r partner gwesty wrth symud ymlaen.

NODWYD

[redacted] FOIA s43(2) [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] FOIA s43(2) [redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

## 24. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad ar y Cyfrifon Rheoli

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Dallas Baker, Pennaeth Dros Dro Rheoli ac Adrodd Ariannol, a Stephen Harrison, Pennaeth Gweithrediadau Ariannol a Chydymffurfiaeth (COU2526-022) gan gynnwys diweddariad ar y targed arbedion ar gyfer 2025-26 ac elfennau allweddol o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis 2.

   NODWYD

   1. Mae'r diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn parhau ar £1.9m. Mae'r diffyg a ragamcanwyd yn amodol ar ddiweddariadau yn dilyn y cyfrifiad o niferoedd myfyrwyr a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd, er na ddisgwylir unrhyw wyriadau sylweddol.

Cymeradwywyd gan y ... 3/2026

2. Mae'r rhagamcanion hylifedd yn cael eu monitro'n agos, ac mae'r gwarged arian parod yn parhau i fod yn risg.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

2. <u>Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol (COU2526-023) yn nodi'r symudiadau yn y cronfeydd gwaddol a'r cronfeydd buddsoddi eraill yn ystod y cyfnod 1 Awst 2024 i 31 Gorffennaf 2025.

NODWYD

1. Roedd y Pwyllgor Buddsoddiadau wedi craffu ar y papur, gan nodi'r newyddion cadarnhaol bod y Brifysgol yn debygol o gyrraedd ei tharged incwm, er ei bod wedi lleihau maint y gronfa fuddsoddiadau.

2. Gofynnodd aelodau am sicrwydd gan swyddogion nad yw'r gyfran o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau sy'n cael eu hariannu o'r cronfeydd gwaddol yn sylweddol.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd y papur gan yr aelodau.

3. FOIA s43(2) [redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

4. FOIA s43(2) [redacted]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

FOIA s43(2)

[redacted]

[redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] [redacted]

[redacted] FOIA s43(2) [redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

5. <u>Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025.</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Graeme Neil, Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus (COU2526-026)

NODWYD

1. Diolchodd yr aelodau i'r Prif Swyddog Ariannol a'r tîm am yr adroddiad.

2. Roedd yr adroddiad a'r datganiadau wedi cael eu hystyried a'u trafod yn y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. Nodwyd bod y cyfrifon ychydig ar y blaen ar gyfer y flwyddyn, gyda'r incwm yn sefydlog ond y costau wedi lleihau.

3. Nododd swyddogion y newid cadarnhaol o 21-31 diwrnod hylifedd net, tra'n cydnabod bod hylifedd yn dal i fod yn risg sylweddol.

4. Dywedodd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad fod y cywair a'r ddelweddaeth yn addas yn ystod cyfnod heriol.

5. Canmolodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd gywair yr adroddiad yn ogystal â'r ffordd mae'n cydblethu â Strategaeth newydd y Brifysgol i'r 2030au. Roedd adroddiad KPMG mor lân ag y gallai fod, sy'n tystio i'r gwaith da a wnaed yng nghyswllt yr Adnodd Credyd Cylchdroi a'r gwaddolion. Canmolwyd y tîm Cyllid yn fawr, a nododd aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y budd anuniongyrchol a ddeilliai o hygrededd y tîm Cyllid gyda'r archwilwyr. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bod y Llythyr Cynrychiolaeth i'r archwilwyr allanol yn fwy na darn o weinyddiaeth, a chydnabuwyd hyn gan aelodau'r Cyngor.

6. Nododd yr aelodau bwysigrwydd cydnabod cynnydd y Brifysgol yn ystod y 18 mis diwethaf.

**PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwyodd yr aelodau'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025.

6. <u>Llythyr a Memorandwm Rheoli'r Archwilwyr Allanol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2526-027).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd Llythyr a Memorandwm Rheoli'r Archwilwyr Allanol.

7. <u>Llythyr Cynrychiolaeth i'r Archwilwyr Allanol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2526-028).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd y Llythyr Cynrychiolaeth i'r Archwilwyr Allanol.

8. <u>Datgeliad Caethwasiaeth Fodern</u>

DERBYNIWYD

Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl gan Lee Pereira, Rheolwr Caffael (COU2526-029)

NODWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

1. Nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ddeall sut mae'r datganiad yn gweithio yn ymarferol, ac a yw'r aelodau staff perthnasol wedi cael hyfforddiant llawn.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

9. Datganiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd (ASSUR)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan David Haywood, Partner Busnes Cyllid a Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol (COU2526-030)

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd.

10. Goruchwylio Prosesau TRAC

DERBYNIWYD

Adroddiad gan David Haywood, Partner Busnes Cyllid Ymchwil (COU2526-031)

NODWYD

1. Y sicrwydd sylweddol a dderbyniwyd yn dilyn yr archwiliad mewnol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd y broses.

11. Adroddiadau Tryloyw ar Incwm a Gwariant

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2526-032)

NODWYD

1. Nododd yr aelodau wall teipograffig, a fydd yn cael ei gywiro cyn iddo gael ei gyhoeddi. **[GWEITHREDU: Rheolwr Treth a Buddsoddiadau]**

3. Bydd y Brifysgol yn adolygu fformat yr adroddiad ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad.

12. Y Parc Gwyddoniaeth: Diweddariad ar Werthu'r Safle

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Tim Macy, Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2526-033)

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

NODWYD

1. Cymeradwywyd y penderfyniad i werthu'r safle mewn egwyddor gan y Cyngor yn hydref 2023.

2. Cafwyd tri phrisiad annibynnol, ac mae Penawdau'r Telerau bellach wedi'u cytuno, gyda phris gwerthu o [redacted], sy'n uwch na'r prisiad cyfartalog.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd y pris gwerthu y cytunwyd arno a'r cynnydd tuag at werthu'r safle.

13. <u>Fforddfraint Network Rail</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Tim Macy, Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2526-034) yn gofyn am gytundeb mewn egwyddor i ganiatáu Fforddfraint i Network Rail a fydd yn golygu bod modd iddynt osod a chynnal ffos ddraenio a fydd yn rhedeg yn gyfochrog â'r rheilffordd ger tir y Brifysgol ar Heol y Fronfraith.

1. Gofynnodd yr aelodau ai fforddfraint barhaol ynteu dros dro fyddai hyn, gan fod yna ystyriaeth ariannol fel arfer os yw'n barhaol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd caniatáu fforddfraint i Network Rail mewn egwyddor, wedi'i selio â sêl y Brifysgol.

## 25. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD YR YSTÂD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol.

NODWYD

1. Bod yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad yr Ystâd yn ofyniad o dan God Rheolaeth Ariannol CCAUC, er mwyn sicrhau bod y corff llywodraethu yn cael sicrwydd ynghylch rheolaeth ddarbodus yr ystâd.

2. Bod y Brifysgol yn cynnal ei hystâd ond nad yw'n ei gwella. Mae'r Brifysgol yn symud i ffwrdd o'r hen Gynllun Meistr, a disgwylir i'r Cynllun Seilwaith newydd fod ar waith ym mis Ionawr. Nid oedd gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio, ac roedd yn falch o glywed bod cynllun ar waith ar gyfer yr ystâd.

3. Gofynnodd yr aelodau sut mae'r diffyg buddsoddi yn yr ystâd yn effeithio ar y cynllun i gyflawni'r targed sero net. Cadarnhaodd y swyddogion fod y Brifysgol, lle bynnag y bo modd, yn cynnwys ceisiadau am gyllid cyfatebol ac yn manteisio ar gyfleoedd i wella'r ystâd wrth i gyfleoedd ariannu godi.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

4. Mae yna lawer o adeiladau gwaddol. Canolbwyntiodd trafodaethau'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar reoli gofod ac eiddo, ac ar sut y gall y Brifysgol ddefnyddio ei hystâd yn fwy effeithlon. Unwaith y bydd y cynlluniau wedi'u cwblhau, bydd y Weithrediaeth yn ystyried cyd-ddibyniaethau.

5. Gofynnwyd am ddiweddariad ar werthiant safle Llanbadarn. FOIA s43(2) [redacted] Nid oes unrhyw beth yn awgrymu na fydd y gwerthiant yn mynd rhagddo, a disgwylir y bydd diweddariad yn cael ei ddarparu ym mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD**

6. Cyflwyno sesiwn friffio ar y Cynllun Seilwaith diwygiedig mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol. **[GWEITHREDU:** Llywodraethu].

## 26. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2526-036).

NODWYD

1. Mae'r adroddiad wedi cael ei drafod yn y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ac awgrymwyd amryw newidiadau, sydd wedi'u gwneud ers hynny.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch.

## 27. MATERION LLYWODRAETHU

1. <u>Ffurflen Sicrwydd Flynyddol i Medr</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro (COU2526-037).

   NODWYD

   1. Bod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi craffu ar y ddogfennaeth. Cytunwyd wedyn ar y datganiadau, ac mae'r dystiolaeth ategol wedi'i chwblhau. Mae maint y ddogfennaeth sy'n ofynnol yn sylweddol llai nag oedd y llynedd, a allai ddangos y cyfeiriad y mae Medr yn bwriadu ei ddilyn.

   **PENDERFYNWYD**

   2. Cymeradwywyd y Ffurflen Sicrwydd Flynyddol i Medr

2. <u>Enwebiadau</u>

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-038), sy'n nodi'r broses a'r argymhellion ar gyfer recriwtio Dirprwy Ganghellor.

NODWYD

1. Mae'r broses ar gyfer recriwtio Dirprwy Ganghellor wedi'i hamlinellu yn y papur ac mae'n debyg i'r broses ar gyfer recriwtio'r Canghellor.

2. Ar ôl ystyried sawl cais cryf, mae'r Pwyllgor Dethol yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo penodiad Aled Rhys Jones am gyfnod o dair blynedd.

3. Cafwyd cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant i gamu'n ôl o'r rôl am gyfnod. O ganlyniad, dilynwyd proses debyg i'r un a ddefnyddiwyd wrth benodi Cadeirydd Dros Dro ARAC yn 2024/25. Yn dilyn asesiad o sgiliau'r aelodau, yr argymhelliad yw bod Yusuf Ibrahim yn cael ei benodi'n Gadeirydd tan ddiwedd y flwyddyn academaidd bresennol, gan nodi y bydd y Cadeirydd presennol yn parhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant a'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd yr argymhelliad i benodi Aled Rhys Jones yn Ddirprwy Ganghellor am gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2026 tan 31 Rhagfyr 2028.

5. Cymeradwywyd penodiad Yusuf Ibrahim fel Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant tan ddiwedd y flwyddyn academaidd bresennol.

3. <u>Cofrestr Risg y Brifysgol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace a Sarah Taylor, yr Adran Cynllunio Strategol (COU2526-039) yn nodi Cofrestr Risg newydd y brifysgol.

NODWYD

1. Mae’r risgiau wedi'u dyrannu ar draws yr is-bwyllgorau.

2. Gofynnodd yr Aelodau fod yr adroddiad nesaf yn cynnwys pa bwyllgorau fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r risgiau a ddirprwywyd. [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd Cofrestr Risg newydd y Brifysgol.

4. <u>Diwygiadau i Archwaeth Risg a Matrics y Sefydliad</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace a Sarah Taylor, yr Adran Cynllunio Strategol (COU2526-040) yn nodi lefel bresennol yr archwaeth risg ar gyfer gweithgareddau'r Brifysgol.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

NODWYD

1. Roedd y datganiad a'r matrics wedi cael eu hystyried gan ARAC, a oedd o'r farn ei bod yn ddogfen gadarn ar y cyfan, gan ddefnyddio iaith briodol. Cafodd y pwyllgor drafodaeth sylweddol ynghylch lefel y risg ariannol, gan gwestiynu a oedd y Brifysgol, yn yr hinsawdd bresennol, yn gyfforddus yn datgan bod ganddi archwaeth am risg ariannol uwch. Trafodwyd hefyd y goblygiadau pe bai'r rheoleiddiwr yn codi cwestiynau ynghylch hyn. Gofynnodd aelodau ARAC i Weithrediaeth y Brifysgol ystyried yr iaith ymhellach, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor [**GWEITHREDU**: Pennaeth Cynllunio].

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y diwygiadau i Archwaeth Risg a Matrics y sefydliad, wrth aros am gadarnhad gan ARAC ynghylch yr iaith.

5. Polisi Risg

DERBYNIWYD

Polisi Rheoli Risg Diwygiedig gan Helen Eustace a Sarah Taylor, yr Adran Cynllunio Strategol (COU2526-041)

NODWYD

1. Ystyriwyd y polisi diwygiedig gan ARAC. Cafwyd trafodaethau eto ynglŷn ag iaith, ond ar y cyfan, roedd y pwyllgor yn fodlon.

2. Nododd ARAC fod Atodiad C yn sgorio risgiau ond nid o reidrwydd yn yr un modd â'r archwaeth risg ac holodd yr aelodau a oes angen i'r fethodoleg fod yn gyson ar draws y polisi a'r archwaeth. Gofynnodd y pwyllgor unwaith eto i Weithrediaeth y Brifysgol ystyried yr iaith a ddefnyddir a pha mor hawdd yw hi yw hi i'r dogfennau fynd yn anghyson â'i gilydd.

3. Mae Atodiad A yn nodi meysydd cyfrifoldeb ac atebolrwydd, sy'n broses sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd. Os yw'r treial yn llwyddiannus, bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn y polisi i sicrhau tryloywder.

4. Mae'r pwnc hwn ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cadeiryddion.

5. Nodwyd mai'r Prif Swyddog Ariannol sy'n gyfrifol am risg ar hyn o bryd, ond y bydd y cyfrifoldeb hwnnw'n cael ei drosglwyddo i Lywodraethu ym mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD**

6. Cymeradwywyd y Polisi Rheoli Risg.

6. Adroddiadau blynyddol yr is-bwyllgorau i'r Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiadau gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-042) yn manylu ar fusnes is-bwyllgorau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

NODWYD

1. Mae'n ofynnol i ARAC yn ôl Cod Rheoli Ariannol y cyllidwr gyflwyno adroddiad i'r Cyngor.

2. Roedd y Pwyllgor wedi cael blwyddyn brysur gyda lefel gref o bresenoldeb. Bu Arwel Thomas yn gweithredu fel Cadeirydd mewn sawl cyfarfod. Cyflwynwyd y cynllun archwilio mewnol, gydag un eithriad, sydd wedi'i ohirio. Aeth y broses archwilio allanol yn llawer mwy hwylus eleni, ac mae perthynas dda wedi'i sefydlu gyda KPMG a TIAA. Gwnaed gwaith sylweddol ar y Gofrestr Risg, ac roedd yr adolygiadau manwl o'r risgiau yn gryf. Roedd yn gadarnhaol gweld y ffocws yn symud oddi wrth drafodaethau am fframweithiau i ganolbwyntio ar y risgiau eu hunain.

3. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi goruchwylio penderfyniadau ynghylch cyflogau uwch staff, gan gynnwys adolygu data meincnodi ar gyfer y sector. Dylid nodi nad oedd codiadau cyflog ar gyfer uwch staff yn ystod y cyfnod ac, mewn gwirionedd, roedd gostyngiadau gwirfoddol. Cododd y pwyllgor nodyn o rybudd nad yw hynny'n opsiwn cynaliadwy. Cynigiodd y pwyllgor hefyd Ddatganiad Blynyddol drafft ar Daliadau Uwch Staff i'w gyhoeddi.

4. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Taliadau i'r Cadeirydd roi adborth i'r Is-Ganghellor a'r uwch dîm ynghylch eu tryloywder, eu hagwedd agored, a'r ffordd y maent yn meithrin cyswllt. Roedd y pwyllgor yn llawn canmoliaeth ac yn dymuno i hynny gael ei gofnodi.

5. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant yn derbyn llawer o adroddiadau ac yn ceisio ailgyfeirio trafodaethau tuag at ddiwylliant, cynllunio a chynaliadwyedd. Bu'n flwyddyn brysur iawn a gwnaed llawer iawn o waith gan aelodau a swyddogion. Bu heriau o ran parhad a phresenoldeb ar adegau. Mynegodd y Cadeirydd presennol ei ddiolch i Yusuf Ibrahim am ymgymryd â rôl y Cadeirydd am weddill y flwyddyn academaidd.

6. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i'r aelodau am eu cyfraniad sylweddol a diolchodd i'r Prif Swyddog Ariannol a'r tîm am yr adroddiadau ariannol cynhwysfawr, yn enwedig yn ystod cyfnodau heriol a chydag adnoddau cyfyngedig. Gwnaed rhai addasiadau i'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ymestyn hyd y cyfarfodydd a rhoi'r Hen Goleg yn uwch ar yr agenda. Wrth edrych ymlaen, wrth i'r prosiect hwnnw symud i'w gam gweithredol, mae angen sicrhau mai'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yw'r pwyllgor mwyaf priodol i oruchwylio'r cam hwnnw.

**PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwyodd yr Aelodau yr adroddiad gan ARAC.

8. Cofnodi diolch y Cadeirydd i Gadeiryddion yr is-bwyllgorau am eu cyfraniad a'u hymrwymiad, gan nodi bod grŵp y Cadeiryddion yn gweithio'n dda iawn.

7. <u>Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn Elusennau amdanynt</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2526-043)

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

NODWYD

1. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau difrifol wedi'u hadrodd i'r Comisiwn Elusennau ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ym mis Mehefin.

2. Oherwydd y nifer isel iawn o ddigwyddiadau difrifol dros y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd adolygiad, ar y cyd ag adran Taith y Myfyriwr, o'r trefniadau presennol ar gyfer adrodd ac uwchgyfeirio materion, er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch y datganiad dim digwyddiadau.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad.

8. <u>Adroddiad Blynyddol ar ddatganiadau o fuddiannau a rhoddion a dderbyniwyd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro (COU2526-044)

NODWYD

1. Mae'r holl ddatganiadau bellach wedi'u cyflwyno.

2. Holodd yr aelodau a yw hwn yn bwnc sy'n cael ei drafod ddigon gan y Cyngor, er y nodwyd ei fod yn eitem sefydlog ar agendâu'r Cyngor.

3. Adroddodd swyddogion fod y cwestiynau a ofynnir yn cael eu hadolygu i sicrhau eglurder y broses. Bydd gwaith pellach wedyn yn cael ei wneud mewn perthynas â'r Weithrediaeth a'r uwch dîm arwain.

Dychwelodd Aloysius Igboekwu i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad.

9. <u>Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin.</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2526-045)

NODWYD

1. Nodwyd bod y sêl wedi'i gosod ar y ddogfen trosglwyddo teitl ar gyfer Maes Elwyn, Morfa Mawr.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad.

10. <u>NCAGW: Cais Canolfan y Celfyddydau</u>

DERBYNIWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-046)

NODWYD

1. Datganodd Daniel Richards a Kate Eden fuddiant mewn perthynas â'r eitem hon. Roedd Kate yn aelod o Gyngor Cyngor Celfyddydau Cymru pan oedd y penderfyniadau ynghylch y cyllid hwn yn cael eu gwneud, er i'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud drwy broses a bwrdd ar wahân. Mae hi bellach yn Gadeirydd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru. Mae CELF wedi'i ymgorffori yn Amgueddfa Cymru, felly mae perthynas barhaus fel un o'r 9 partner. Mae Daniel Richards yn un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru ar hyn o bryd.

2. Yn rhan o brosiect CELF (Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru), derbyniodd Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth gyllid cyfalaf, a wariwyd wedyn. Penderfynodd Cyngor Celfyddydau Cymru, er mwyn sicrhau diogelwch dros y grant, ei bod yn ofynnol i Brifysgol Aberystwyth dderbyn y grant fel rhydd-ddeiliad cofrestredig Canolfan y Celfyddydau. Ni chafodd y weithred gyfamod a ddeilliodd o hyn ei huwchgyfeirio i'r Cyngor fel sy'n ofynnol.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r weithred gyfamod, gan gynnwys defnyddio Sêl y Brifysgol, yn ôl-weithredol.

11. <u>Graddau er Anrhydedd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526-047) yn rhestru enwebeion ar gyfer graddau er anrhydedd fel y cynigir gan y Grŵp Graddau er Anrhydedd.

NODWYD

1. Roedd y rhestr gychwynnol o enwebiadau a dderbyniwyd yn un fer, felly ceisiwyd ceisiadau pellach. Cafodd y rhestr fer y cytunwyd arni gan y Grŵp Graddau er Anrhydedd ei hystyried gan y Senedd yr wythnos diwethaf, lle codwyd pryder na fydd unrhyw un o'r enwebeion yn gyfarwydd i'r myfyrwyr. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â dyfarnu graddau i enwogion.

2. Cytunwyd bod angen adolygu'r broses, gan gynnwys annog mwy o gyfranogiad gan yr Undeb. [**GWEITHREDU:** Llywodraethu i rannu'r cais am enwebiadau gyda'r Undeb yn ogystal â thrwy'r bwletin wythnosol i fyfyrwyr].

3. O ran dynodi Aberystwyth Ceredigion yn Ddinas Llên gyntaf Cymru, cytunwyd bod hyn yn cynnig cyfle ar gyfer enwebiadau cysylltiedig, ond y byddai'n fwy priodol ystyried hynny y flwyddyn nesaf. [**GWEITHREDU:** Llywodraethu]

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

4. Cymeradwywyd y rhestr fer o enwebeion a gynigiwyd gan y Grŵp Graddau er Anrhydedd.

## 28. DATGANIAD BLYNYDDOL AR GYFLOGAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2425-042).

NODWYD

1. Craffodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ar yr adroddiad. Nodwyd anghysondeb â rhai ffigurau yn yr atodiad, a fydd yn cael eu cywiro cyn eu cyhoeddi.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol ar Gyflogau.

## 29. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR FOESEG YMCHWIL AC UNIONDEB YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Cynghorydd Llywodraethu Ymchwil a Diwydrwydd Dyladwy (COU2526-049)

NODWYD

1. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant wedi ceisio sicrwydd ynghylch a yw gweithgarwch ymchwil yn cael ei ystyried trwy lens Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant, ac nad yw prosesau ymgeisio ar gyfer ymchwil yn cyflwyno rhwystrau i grwpiau penodol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad.

## 30. DATGANIAD SICRWYDD ANSAWDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (COU2526-050) i roi tystiolaeth briodol i'r Cyngor bod y Brifysgol wedi cyflawni ei rhwymedigaethau sicrhau ansawdd, fel sy'n ofynnol gan Medr.

NODWYD

1. Nododd swyddogion fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Senedd, ac na chodwyd unrhyw faterion.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

2. Cwestiynodd yr aelodau ai'r datganiad yw'r dull gorau i gael sicrwydd, a chadarnhaodd swyddogion y bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o lywodraethu academaidd.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd y datganiad.

## 31. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BARTNERIAETHAU CYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan David Moyle, Cofrestrydd Cynorthwyol (Partneriaethau) (COU2526-051) a oedd yn ymdrin â gweithgareddau partneriaeth academaidd gyda risg 'uchel' a 'chanolig' a oruchwylir gan y Gofrestrfa Academaidd.

NODWYD

1. Nododd swyddogion fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Senedd yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad.

## 32. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y GYMRAEG GAN GYNNWYS ADRODDIAD CYDYMFFURFIAETH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Dylan Hughes a Lowri Jones (COU2526-052) yn unol â'r dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg.

NODWYD

1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ac fe'i diweddarwyd yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y pwyllgor. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol ym mis Ionawr.

2. Holodd yr Aelodau sut mae'r adolygiad o'r gwasanaethau proffesiynol wedi effeithio ar siaradwyr Cymraeg. Cadarnhaodd swyddogion fod y niferoedd wedi gostwng ond nodwyd y bu cynnydd yn nifer y staff ar lefelau C1 a C2, a gostyngiad yn nifer y staff ar lefel A0, gan arwain at fawr ddim newid yn gyffredinol. Nododd swyddogion fod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal ar bob achos busnes.

3. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu ble mae'r siaradwyr Cymraeg hynny a ble mae'r lefelau wedi newid, gan y gallai'r effaith ar gydymffurfiaeth â'r safonau fod yn fwy sylweddol. Mae swyddogion Adnoddau Dynol yn siarad â Phenaethiaid Adrannau i asesu effaith yr adolygiad o'r gwasanaethau proffesiynol, ac mae'r Gymraeg yn rhan o hynny.

4. Argymhellodd yr aelodau ychwanegu rhywfaint o eiriau i roi cyd-destun i hynny cyn cyhoeddi'r adroddiad. [**GWEITHREDU:** Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwywyd yr adroddiad, ar yr amod bod y newidiadau a argymhellir yn cael eu gwneud cyn ei gyhoeddi.

## 33. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN AIEC LTD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Hayward, Prif Swyddog Gweithredol AIEC (COU2526-053)

NODWYD

1. Ystyriwyd yr adroddiad gan Weithrediaeth y Brifysgol beth amser yn ôl.
2. Nid yw AIEC yn gwneud swm mawr o arian, ond mae'n cyfrannu ac mae'n strategol bwysig. Gellir esbonio'r arwyddocâd strategol hwn yn fanylach yn ystod y sesiwn friffio ym mis Mawrth ar Barc Arloesi Green Futures.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad.

## 34. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHAGLEN 'PREVENT'

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ian Munton, Cyfarwyddwr Taith y Myfyriwr (COU2526-054)

NODWYD

1. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant, lle ceisiodd aelodau sicrwydd ynghylch risgiau perthnasol y Brifysgol, yn ogystal â'r asesiadau risg a gynhelir ar gyfer myfyrwyr. Cynhaliwyd hefyd drafodaeth ynghylch cyfraddau cwblhau'r hyfforddiant a sut y gellir gwella'r rhain, ynghyd â chynyddu amlygrwydd Prevent yn gyffredinol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr adroddiad.

## 35. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Diweddariadau ar lafar gan Gadeiryddion yr is-bwyllgorau

NODWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

1. Pwyllgor Buddsoddiadau: bydd y cyfarfod nesaf yn cynnwys adolygiad 2 flynedd o’r Polisi Buddsoddiadau. Gofynnwyd i Quantum Advisory Services ddarparu pwyntiau data amrywiol. Mae'n bosibl y bydd y gronfa asedau yn llai, a bydd angen ystyried pa newidiadau fydd angen eu gwneud o ganlyniad i hynny. Nododd yr aelodau y gallai fod yn ddefnyddiol holi Quantum ynghylch dyfodol DA. [**GWEITHREDU:** Rheolwr Treth a Buddsoddi].

2. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar y broses gymeradwyo ar gyfer y Polisi Buddsoddiadau. Cadarnhaodd swyddogion y disgwylir iddi gael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo yn yr haf.

3. Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant: derbyniwyd adroddiad ar weithgarwch ym maes diwylliant, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y cynlluniau Ein Pobl a Chydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch cyflog, gan gynnwys rhoi’r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith, ac effeithiau posibl y dyfarniad cyflog cymharol isel.

4. Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar aelodaeth y pwyllgor, gan nodi bod un lle gwag ar gyfer aelod annibynnol ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y swyddogion fod Odgers wedi’u penodi i gynnal y broses chwilio, ac y bydd angen ystyried cynllunio olyniaeth fel rhan o'r broses recriwtio honno. Mae'n debygol y bydd unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Enwebiadau yn cael eu cyflwyno rhwng cyfarfodydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

5. Cytunodd yr Aelodau y dylid cynnwys adroddiad ysgrifenedig gan y Pwyllgor Buddsoddiadau yn y dyfodol [**GWEITHREDU:** Pennaeth Llywodraethu].

## 36. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL

Gadawodd Rhuanedd Richards y cyfarfod

DERBYNIWYD

Protocol rhannu gwybodaeth arfaethedig gan ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (AUPAS).

NODWYD

Ni chyfrannodd Jane Usherwood at y drafodaeth.

Esboniodd swyddogion eu bod wedi bod mewn gohebiaeth ag ymddiriedolwyr AUPAS, gyda'r nod o ddatblygu'r berthynas. Mae'r Brifysgol yn gwarantu'r cynllun pensiwn ac yn darparu cyllid ychwanegol bob blwyddyn gyda’r bwriad o leihau diffyg y cynllun. Mae'r diffyg wedi codi o ganlyniad i hirhoedledd pensiynwyr a pherfformiad buddsoddiadau. Mae'n debygol o gymryd sawl blwyddyn i glirio'r diffyg hwnnw, ar gyfradd o tua £1.5m y flwyddyn, fel y cytunwyd â'r rheoleiddiwr pensiynau.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi gofyn i'r Brifysgol ddarparu gwybodaeth mewn modd mwy amserol. Nododd y swyddogion nad oedd yn briodol rhannu gwybodaeth nad oedd y corff llywodraethu wedi'i gweld eto, ac ategwyd hyn gan yr aelodau. O ganlyniad, bydd cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr bellach yn cael eu cynnal ar ôl cyfarfodydd Cyngor y Brifysgol.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026

Holodd yr aelodau a ddylai fod yn gyfrifoldeb i'r ymddiriedolwyr ddiffinio pa ddeunydd sy'n berthnasol. Awgrymodd yr aelodau a'r swyddogion na ddylid creu unrhyw ddogfennau ychwanegol er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, ac y dylid datblygu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth a fydd yn nodi pa wybodaeth y gellir ei rhannu, ac ar ba adeg.

PENDERFYNWYD

Cytunodd yr aelodau y dylai'r swyddogion gynnal trafodaethau pellach ynghylch cymesuredd lefel y manylder y mae ymddiriedolwyr y cynllun yn gofyn amdani, ac y dylid gohirio unrhyw benderfyniad ynghylch protocol rhannu gwybodaeth tan fis Ionawr. **[GWEITHREDU: y Prif Swyddog Ariannol]**

Cytunodd yr aelodau y bydd y Brifysgol yn rhannu'r wybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor, ynghyd â rhestr a ddiffiniwyd ymlaen llaw o 'ddigwyddiadau adroddadwy'.

Bydd bore briffio ac o bosibl cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ar 30 Ionawr, a chynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Mawrth 2026.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:29

Cymeradwywyd gan y Cyngor 23/03/2026